*This document is available in English* **Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Matt Powell, Dirprwy Glerc** |
| Swyddog Cyswllt | matthew.powell@flintshire.gov.uk |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Pwyllgor wedi llunio adroddiad blynyddol ers ei sefydlu, ac ers 2021 mae hefyd wedi bod yn ddyletswydd statudol i lunio adroddiad o'r fath.

3 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn nodi unrhyw faterion penodol sydd wedi codi.

4 Fel mater o lywodraethu da, bob blwyddyn mae'r adroddiad blynyddol a gynhyrchir gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod er gwybodaeth.

5 Dyma ugeinfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor sy'n cynnwys crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 (1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025).

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) nodi'r Adroddiad Blynyddol.**

**ATODIADAU**

7 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2024/25 | Gellir cynhyrchu'r adroddiad blynyddol o fewn y gyllideb. Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Mae gan y Pwyllgor ddyletswydd o dan adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2021 i gynhyrchu adroddiad blynyddol, y mae'n rhaid i'r awdurdod tân ei ystyried o fewn 3 mis i'w dderbyn. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae'r adroddiad wedi'i gynhyrchu mewn fformat ddwyieithog |
| Risgiau | Dylai gwaith y Pwyllgor a ddisgrifir yn ei adroddiad blynyddol helpu i leihau'r risg y bydd Aelodau'r Awdurdod yn ymddwyn mewn modd sy'n anghyson â'r cod ac felly ag arfer gorau. |

**Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2024/25

### Cefndir

Dyma ugeinfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ac mae'n rhychwantu'r cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn a pharatoi adroddiad ar eu gweithgaredd i'w ystyried gan yr Awdurdod.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn rhoi cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, cael adroddiadau a chŵynion am Aelodau, cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

### Aelodaeth

Nid yw aelodaeth y Pwyllgor wedi newid ers i gynghorwyr newydd gael eu penodi ar ôl yr etholiadau yn 2022. Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

Aelodau Annibynnol

- Sally Ellis 01/01/22 – 31/12/26 (yn gwasanaethu am ail dymor) (Dirprwy Gadeirydd)
- Julia Hughes 01/01/22 – 31/12/26 (yn gwasanaethu am ail dymor) (Cadeirydd)
- Gill Murgatroyd 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)
- Gareth Pritchard 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)

Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub

- Y Cynghorydd Marion Bateman (20/06/2022 tan yr etholiadau cyngor nesaf)
- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (20/06/2022 tan yr etholiadau cyngor nesaf)

**Presenoldeb**

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol ar y dyddiadau canlynol gyda'r aelodau a enwir yn bresennol:

**5 Ebrill 2024** - presennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd

**2 Hydref 2024** – presennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd

**27 Mawrth 2025** – presennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd, Y Cynghorydd John Brynmor Hughes

**Materion a Drafodwyd**

Yn ei gyfarfod eithriadol ar 5 Ebrill 2024:

- Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ei bedwerydd adroddiad blynyddol ar bymtheg i'r Awdurdod;
- Cwblhaodd y Pwyllgor ei adolygiad treigl o god ymddygiad yr aelodau ac argymhellodd y dylai'r Awdurdod fabwysiadu newidiadau i'r Cod yn wirfoddol a argymhellwyd gan Adolygiad Penn;
- Adroddwyd am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd. Gofynnodd yr aelodau i golofn yn nodi a oedd presenoldeb wedi gwella neu wedi gostwng, ac unrhyw amgylchiadau lliniarol, gael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol;
- Cwblhaodd y Pwyllgor ei adolygiad treigl o'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau / Gweithwyr gan argymell y dylai'r Awdurdod fabwysiadu newidiadau i ehangu cwmpas y protocol i gynnwys categorïau perthnasol eraill o weithwyr, a nodi nad oedd unrhyw faterion wedi'u cofnodi yn codi o dan y protocol;
- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a
- Daeth y Prif Swyddog Tân i'r cyfarfod i roi diweddariad llafar ar yr Adolygiad Diwylliannol

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 2 Hydref 2024:

- Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi data ystadegol ar gŵynion am gynghorwyr mewn cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol dros y flwyddyn. Nododd yr Aelodau fod mwyafrif y cwynion yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch a bod cynnydd cyffredinol mewn cwynion ond nad oedd unrhyw un yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelodau o fewn awdurdodau tân ledled Cymru;
- Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru. Mae hwn yn rhoi data ystadegol ar nifer y gwrandawiadau a gwblhawyd dros y flwyddyn;
- Rhoddwyd adborth gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Glerc o gyfarfod y Cadeiryddion a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024; ac

- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 27 Mawrth 2025:

- Cafodd y Pwyllgor adborth llafar gan y Cadeirydd ar Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol;
- Adroddwyd ar bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd a nododd y Pwyllgor Safonau fod cyfraddau presenoldeb disgwyliedig wedi gwella ac yn cael eu bodloni erbyn hyn ond y bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu;
- Bu'r Pwyllgor yn trafod a chymeradwyo ei Adroddiad Blynyddol;
- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a
- Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad treigl o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol a gofynnodd am ymgynghoriad pellach.

Yn ystod ei gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried adborth gan Gadeiryddion y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgor Safonau. Mae'r fforwm hwnnw'n gyfle i rannu arfer da ac adeiladu consensws o amgylch meysydd gwaith cyffredin. Mae'r safbwyntiau a fynegir yno yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn ystyried materion fel diwygiadau i'r cod. Cafodd y Pwyllgor hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am adolygiad Archwilio Cymru o lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu cynrychiolwyr y Pwyllgor mewn cyfarfodydd Adolygiad Diwylliannol er mwyn deall a yw unrhyw faterion ynglŷn â hynny yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Safonau.

**Hyfforddiant**

Nod y Pwyllgor yw ymgymryd â hyfforddiant ym mhob un o'i gyfarfodydd ar faterion sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl.

**Blaenraglen Waith**

Mae'r Pwyllgor wedi gosod blaenraglen waith flynyddol iddo'i hun i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac yn ystyried yr holl eitemau y mae angen iddo eu cwmpasu o fewn blwyddyn. Mae’r eitemau sefydlog rheolaidd yn cynnwys "Ein Canfyddiadau" o wefan yr Ombwdsmon, adborth gan y Fforwm Cenedlaethol, presenoldeb aelodau yn ogystal â hyfforddiant ar ei rolau a'i gyfrifoldebau.

ewMae'r Pwyllgor hefyd yn gosod rhaglen aml-flwyddyn iddo'i hun i adolygu'r codau a'r protocolau sydd o fewn ei gylch gorchwyl.  Mae pob un yn cael ei ystyried o leiaf unwaith yn ystod tymor yr Awdurdod.  Mae'r rhaglen honno wedi dechrau eto yn dilyn yr etholiadau yn 2022.

**Cwynion yn erbyn Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni chafwyd unrhyw gŵynion am Aelodau'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.  O ganlyniad, ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau o dan y broses ddatrys leol nac at Banel Dyfarnu Cymru na'r Pwyllgor i gynnal gwrandawiad mewn perthynas ag achos honedig o dorri'r cod.

**Dyletswydd Arweinwyr Grŵp i Hyrwyddo Ymddygiad Moesegol**

Nid yw'r Awdurdod yn rhannu ei aelodaeth yn ôl grwpiau gwleidyddol. Fodd bynnag, bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn cwrdd â Chadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor yn ychwanegu gwerth.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei rheoli trwy un pennawd cyllideb ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Mae gan aelodau annibynnol y Pwyllgor hawl i hawlio tâl yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau y maent yn mynd iddynt. Am fynd i gyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, hawliwyd cyfanswm o £1,206.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Awdurdod yn nodi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.